# BELE'R COED



## 1. SEFYLLFA BRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd[a] (Atodiad Va) |
| | Confensiwn Berne (Atodiad III) |
| DU a Chymru | Rheoliadau Cynefin[b] (Rhan 3) |
| | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Rhan 5 & 6) |
| | Deddf Amddiffyn Mamaliaid Gwyllt 1996 |
| | SOCC[c] |
| Gwynedd | CGB Eryri |

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Ym Mhrydain, prif gadarnle bele'r coed[d] yw'r Alban, er fod y rhywogaeth hefyd yn goroesi mewn rhannau o Gymru a Lloegr. Ni wyddys lawer am ei ddosbarthiad oherwydd ei natur annaliadwy a'i brinder. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent wedi chwarae rhan ganolog mewn cofnodi arsylliadau o fele'r coed a thystiolaeth arall yng Nghymru a Lloegr ers 1995. Dengys map dosbarthiad yr arsylliadau a gafwyd yng Nghymru a Lloegr ers 1989 sydd yn sgorio dros 7 ar raddfa hyder y Ymddiriedolaeth Bywyd gwllt Vincent fod yna nifer o glystyrau daearyddol.[1] Mae'r rhain yn awgrymu fod pedwar prif clwstwr o fannau ble y gellir gweld bele'r coed: De-ganolbarth Cymru, Gogledd Cymru, Cymbria a Gogledd y Penwynion ac ardaloedd Kielder / Cheviots gydag isardaloedd ychwanegol yn Rhostir Gogledd Caerefrog a'r Peak District.



[a] Gorchymyn Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol i anifeiliaid a blodau gwyllt.
[b] Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) Ewropeaidd 1994
[c] Rhestr Gofal am Gadwraeth Rhywogaethau Prydain
[d] *Martes martes*

### 1.3 Sefyllfa yng Ngwynedd [e]

Ni wyddys beth yw sefyllfa bresennol a dosbarthiad y boblogaeth yng Ngwynedd. Ers 1989 mae deg achos "hyder uchel" yn ôl y system sgorio YBGV o weld bele'r coed o'r 'Caernarfon Watsonian Vice County', rhain wedi eu hysbysu fel rheol gan naturiaethwyr profiadol[2]. Mae map o'r wybodaeth yma yn dangos fod nifer o arsylliadau o'r bele wedi eu gwneud yng Ngwynedd y tu allan i ffiniau PCE, gan gynnwys Pen Llŷn ac arfordir y gogledd.

## 2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YMA YNG NGWYNEDD [f]

- Un rheswm dros y gostyngiad yw erledigaeth gan giperiaid, gan fod bele'r coed yn rywogaeth rheibus.
- Mae darnio cynefin wedi arwain at ddiffyg cynefin addas – llecynnau coediog, coedwigoedd ac ucheldir agored, yn aml mewn mannau ble mae clogwyni a chreigiau i'w canfod.
- Mae llawer o'r llecynnau mwyaf o goedwig sydd ar ôl yn blanhigfeydd ucheldirol ble mae amrywiaeth isel a ysglyfaeth a biomas.
- Mae'r ucheldir creigiog sydd yn cynnig lloches arall wedi ei orbori ac yn brin o ysglyfaeth. Cyfynga hyn ar y cynhyrchedd poblogaeth.
- O fewn coetiroedd, mae diffyg hen goed gyda chilfachau addas i ffurfio safleoedd gwâl sydd wedi'i hinsiwleiddio'n dda.
- Mi all beláod coed cael eu dal ar gam ar mewn trapiau i ddal llwynogod a brain. fel rhan o reolaeth rheibwyr gyffredinol.
- Mi all poblogaeth uchel ac o bosib gynyddol o lwynogod effeithio ar fele'r coed. Mae llwynogod yn ysglyfaethu ac yn disodli bele'r coed, a hefyd yn cystadlu am yr un ffynhonnell fwyd.
- Mae beláod coed yn cael eu canfod yn farw ar ffyrdd nawr ac yn y man, a gallai hyn fod yn achos arwyddocaol o'u marwoldeb.

## 3. CGR A CGC PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Coetiroedd derw yr ucheldir, Coetiroedd ynn yr ucheldir, Coetiroedd prysgwydd

Ffwlbart

## 4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mi allai bele'r coed drigo mewn safleoedd arfordirol neu dirol yng Ngwynedd, sydd wedi eu nodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt posib, neu wedi eu dynodi fel GNL, SDoDdGA, ACA neu AGA; fodd bynnag nid oes unrhyw fanylion ar gael.

### 4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn cynnal cynllun blychau nythu yn nyffryn Ffestiniog.
- Gall fod Cynlluniau Grant ar gyfer rheolaeth coedwigoedd (e.e. Cynllun Grantiau Coedwigoedd) a rheolaeth amaeth-amgylcheddol (e.e. Tir Gofal), yn cyfrannu at gynnal a chadw a gwella cynefinoedd sydd yn addas i feláod coed.

---

[e] O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

[f] Gweler hefyd CGCau cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sydd yn effeithio ar gynefinoedd y rhywogaethau yma

- Drwy ei dogfen strategaeth "Coedwigoedd i Gymru" mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymrwymo ei hun i wneud newidiadau mewn ymarferion coedwigaeth, fydd o bosib o fantais i fele'r coed.

### 4.3 Arolwg, ymchwilio a monitro

- Rhaglen o arolygon cenedlaethol cyfredol gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent sydd hefyd â chronfa ddata o lecynnau ble mae bele'r coed wedi eu gweld.
- Adroddiadau o weld bele'r coed wedi eu casglu'n flaenorol gan aelodau'r cyhoedd yng Nghymdeithas Edward Llwyd a Chyngor Gwynedd mewn sioeau amaethyddol a digwyddiadau eraill.

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Hybu tŵf naturiol ac ymlediad y boblogaeth frodorol bresennol.

2. Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus ynghylch bele'r coed a hybu goddefiad ymysg ffermwyr a chiperiaid.

## 6. CAMAU ARFAETHEDIG

| Côd | Camau | Partner(iaid)[9] |
|---|---|---|
| **Polisi a Deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn llecynnau sensitif yn cydfynd gyda chadwraeth bele'r coed,.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CG,** Partneriaid Perthnasol |
| **Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd** | | |
| 2 | Mewn cyswllt gyda rheolwyr a pherchnogion tir, sefydlu llecynnau magu diogel mewn mannau dewisol gyda chynefin addas, yn cynnwys blychau gwâl artiffisial i feláod coed a monitro'u defnydd.<br>TARGED/AMSERLEN: i'w bennu | **YBGV,** CC, CCth, CG |
| **Cyngor** | | |
| 3 | Darparu cyngor i giperiaid, ffermwyr a gweithwyr coedwigaeth, swyddogion CC ac eraill sy'n rhan o reoli cynefinoedd posib bele'r coed ar sut i gadw beláod coed i ffwrdd oddi wrth cewyll adar megis ffesantoda ieir.<br>TARGED/AMSERLEN: Yn ôl y galw, Cyfredol | **CG**, CSCB, CCGC, AACChG, YCH, GCFBG |
| 4 | Cynnig cyngor a hyfforddiant ar faterion cadwraeth bele'r coed i wardeniaid, gweithwyr coedwigaeth, swyddogion CC, ac eraill sy'n ymwneud â rheolaeth cynefinoedd posib bele'r coed.<br>TARGED AMSERLEN: | **YBGV**, CG, CCGC, |
| **Arolwg, ymchwil a monitro** | | |
| 5 | Rhoddi cymorth gyda datblygu technegau arolygu bele'r coed ble bo hynny'n addas ac yn ymarferol.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **YBGV**, CEH, CG, PCB, |

[9] Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

| Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd | | |
|---|---|---|
| 6 | Hybu cofnodi arsylliadau o fele'r coed gan reolwyr a pherchnogion tir, i'w gyrru ymlaen i YBGV i'w cadw, drwy gyhoeddi erthyglau rheolaidd mewn cyhoeddiadau perthnasol (e.e. rhai gan undebau ffermwyr, CSCB, GCT, CBNGC)<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CG** , YBGV |
| 7 | Hybu cofnodi gweld bele'r coed gan y cyhoedd, i'w yrru ymlaen i YBGV i'w goladu, drwy wneud datganiadau i wasg papurau newydd lleol nawr ac yn y man.<br>TARGED: Yn flynyddol yn dechrau o Wanwyn 2004<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CG**, CBGGC |
| 8 | Codi ymwybyddiaeth ymysg ciperiaid, ffermwyr, ceidwaid da pluog ac eraill sydd yn rheoli ysglyfaethwyr ynghylch yr amddiffyniad cyfreithiol sydd gan y rhywogaeth yma, a'r angen i sicrhau fod cyn lleied â phosib o feláod coed yn cael eu dal, drwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol a thrafod gyda grwpiau perthnasol (e.e. cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol undebau ffermwyr).<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CG**, AACChG, CSCB, CCGC, YCH, GCFBG |

# 7 PARTNERIAID A CHYFLEON

## 7.1 Prif bartner ar gyfer CGR:

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent (YBGV)

## 7.2 Partneriaid allweddol

Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Brydeinig(CSCB)

Coed Cymru (CC)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Adran Amgylchedd Cynllunio Chefn Gwlad (AACCD)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Ymddiriedolaeth Cadwraeth a Hela (YCH)

Cyngor Gwynedd (CG)

Cymdeithas Cymdeithas byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Prifysgol Cymru Bangor (PCB)

Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH)

## 7.3 Cyfleon

Gwirfoddolwyr, myfyrwyr, undebau ffermwyr, rheolwyr a pherchnogion tir, ciperiaid, ceidwaid da pluog

## 8. DIOLCHIADAU

Awdur: Andrew Simpkin
Ymgynghorwyr: John Messenger (YBGV), Chris Hall (Cynllun Dyfrgn Afon Dwyryd), Peter Jones (FC), Jill Jackson (CG), John Birks (YBGV), Chris Wynne (CBNGG), Robert Greig (Prosiect Dyfrgwn Môn)
Ffotograff: D. Balharry.

## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, AGA: Ardal Gwarchodaeth Arbennig, SoDGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

---

[1] Birks, J.D.S. a Macmillan, H.J. 2001. *The Vincent Wildlife Trust - Review of 1997 – 2000.* Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent

[2] Birks, J, Braithwaite, T a Messenger, J. 2002. *The pine marten in Wales – our greatest enigma?* Natur Cymru, Gaeaf 2002.